

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhan 3: Adrannau 19, 21, 24

Dyletswydd i asesu anghenion unigolyn am ofal a chymorth, ac anghenion gofalwr am gymorth

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid yn llwyr y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ddiwallu anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y cymorth y mae ei angen arnynt i ddileu rhwystrau i'w llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynharach i atal anghenion rhag dod yn ddifrifol, ac mae'n hyrwyddo'r arfer o fuddsoddi mewn adnoddau yn y tymor byr i roi'r gwerth gorau i bwrs y wlad ar y cyfan.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo integreiddio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant gwell.

Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer statudol mewn perthynas â Rhan 3 yn darparu eglurder a chyfarwyddyd ynghylch y ddyletswydd dan adrannau 19, 21 a 24. Mae'r ddogfen frifio dechnegol hon yn rhoi crynodeb byr o'r ddyletswydd hon, ond nid dogfen gyfreithiol mohoni.

Dolenni allweddol:

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1305/pdfs/wsi_20151305_mi.pdf

Mae'r rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud a byddant yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu Anghenion Unigolion)

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part3cy.pdf>

Cyhoeddwyd y cod ymarfer hwn o dan Ran 3 o'r Ddeddf ar 18 Rhagfyr 2015. Mae'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

Crynodeb o'r ddyletswydd

Mae **Rhan 3** yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion unigolyn (oedolyn neu blentyn) am ofal a chymorth, ac anghenion gofalwr am gymorth.

- Mae'r hawl i asesiad yn bodoli ni waeth beth fo lefel yr angen, ac ni waeth beth fo adnoddau ariannol y person.
- Mae gan ofalwyr yr un hawliau i asesiadau â'r rhai y maent yn gofalu amdanynt.

- Mae'n rhaid i'r asesiad gael ei gwblhau mewn partneriaeth gyda'r unigolyn gyda ffocws ar y canlyniadau personol y mae'n dymuno'u cyflawni.
- Mae'n rhaid i'r asesiad fod yn gymesur â'r anghenion sydd gan yr unigolyn yn ôl pob golwg.
- Mae'n rhaid cwblhau'r asesiad yn unol â gofynion yr offeryn asesu a chymhwystra cenedlaethol.

Beth mae'n ei wneud?

Mae'n rhaid cofnodi'r asesiad gan ddefnyddio'r offeryn asesu a chymhwystra cenedlaethol sy'n cynnwys:

- Y set ddata graidd ofynnol genedlaethol.
- Dadansoddiad sy'n seiliedig ar y 5 elfen ganlynol:
 - amgylchiadau'r person
 - ei ganlyniadau personol
 - rhwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny
 - risgiau i'r person neu i bersonau eraill os na chyflawnir y canlyniadau hynny
 - cryfderau a galluedd y person.
- Y camau gweithredu sydd i'w cymryd gan yr awdurdod lleol a phersonau eraill i helpu'r person i gyflawni'r canlyniadau hynny.
- Datganiad sy'n nodi asesiad yr ymarferydd o'r modd y bydd y cam gweithredu a adnabuwyd yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniad personol neu'n diwallu'r anghenion a adnabuwyd gan yr asesiad mewn rhyw ffordd arall.

Mae'n **rhaid** i asesiad ystyried a yw gofalwr person yn gallu ac yn fodlon darparu gofal yn awr neu yn y dyfodol.

Yn achos plentyn mae'n rhaid i'r asesiad ystyried anghenion penodol plant, gan gynnwys eu hanghenion datblygiadol, ac unrhyw amgylchiadau eraill sy'n effeithio ar eu llesiant. Mae'n rhaid i asesiad o blentyn gael ei gwblhau o fewn 42 o ddiwrnodau gwaith i'r adeg atgyfeirio.

Tybir bod ar blentyn anabl angen gofal a chymorth yn ychwanegol at, neu yn lle, y gofal a'r cymorth a ddarperir gan deulu'r plentyn.

Cydweddiad â'r Ddeddf

Gall y broses asesu ddechrau pan fo person yn defnyddio'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynorthwy, neu drwy atgyfeiriad gan weithiwr proffesiynol a nodir dan **Ran 2**.

Ar ddiwedd yr asesiad mae'n rhaid barnu a oes gan y person anghenion cymwys am ofal a chymorth a fydd yn cael eu diwallu trwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth yn achos gofalwr. Ceir canllawiau ynghylch diwallu anghenion yn **Rhan 4**.

Rhan allweddol o'r asesiad yw canfod a oes achos rhesymol dros amau bod oedolyn neu blentyn yn wynebu risg. Caiff dyletswyddau awdurdodau lleol i ddiogelu oedolion a phlant eu nodi mewn mwy o fanylder yn y canllawiau statudol dan **Ran 7**.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG i sicrhau bod templedi lleol, rhanbarthol ac arbenigol yn cydymffurfio â'r set ddata graidd ofynnol genedlaethol ac yn cael eu defnyddio ar draws yr ôl troed. Ceir canllawiau pellach ynghylch partneriaeth a chydweithredu yn **Rhan 9**.

Cyn cynnal asesiad, mae'n rhaid i ymarferwyr ystyried a fyddai'r person yn cael budd o bresenoldeb eiriolwr yn unol â'r canllawiau yn **Rhan 10**.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i roi gofal a chymorth i'r rhai mewn sefydliad diogel, ac mae'r ddyletswydd hon wedi'i chynnwys dan **Ran 11**.

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?

Bydd y broses asesu'n cynorthwyo unigolyn i adnabod y gofal a'r cymorth y gall fod eu hangen arno i gyflawni ei ganlyniadau personol.

Mae'r broses yn cynorthwyo staff i arfer eu crebwyll proffesiynol, mewn partneriaeth gyda'r unigolyn, i gytuno ar ddatrysiadau sydd er budd pennaf yr unigolyn a'i deulu.

Mae'r broses asesu yn gymesur ag anghenion pobl ac yn ymateb iddynt ac yn rhoi pwyslais ar gryfderau a galluoedd, ac yn canolbwyntio ar wasanaethau sy'n galluogi.

Mae'r offeryn asesu a chymhwysra cenedlaethol yn darparu fframwaith cyson i asesu plant, oedolion a gofalwyr.

Mae'n rhaid i'r asesiad gofnodi sut y bydd yr holl anghenion yn cael eu diwallu, pa un ai trwy ddarparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynorthwy, gwasanaethau cymunedol neu ataliol, cynllun gofal a chymorth neu drwy ddull arall. Bydd hyn yn cynnwys y camau gweithredu i'w cymryd, a chan bwy.

Rhagor o wybodaeth

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

Rhagor o wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/?lang=cy>

Y Fframwaith Mesur Perfformiad:

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151005co-de-of-practicecy.pdf>

Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol:

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/140814nofcy.pdf>

Hyb gwybodaeth a dysgu Cyngor Gofal Cymru:

<http://www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>